Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eich cyf / Your ref: | | Gofynner am / Please ask for: | **Mr Roger W. Bowen** |
| Fy nghyf / My ref: | | Llinell Uniongyrchol / Direct Line: | **01267 246474** |
| Dyddiad/Date: | **10/03/2022** | E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail: | RWBowen@sirgar.gov.uk<br>RWBowen@carmarthenshire.gov.uk |


Annwyl Ymgynghorai,

**<u>Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –</u>**
**<u>Cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Y Felin</u>**

Ddydd Mercher, 9 Mawrth 2022, cymeradwyodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig canlynol:

**O 1 Medi 2022, fod natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Y Felin yn newid i gyfrwng y Gymraeg, gyda darpariaeth Dwy Ffrwd yn parhau o Gyfnod Allweddol 2.**

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig-** derbyniwyd 4 gwrthwynebiad.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd bod pedwar gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor Sir y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**
Barn yr awdurdod yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal neu wella safonau darpariaeth addysg yn yr ardal fel y'i cefnogir gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

Mae'r Cyngor Sir wedi ystyried bod y cynnig yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a'i fod yn sicrhau bod plant yn cael cyfle i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**
Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael, y galw tebygol am leoedd yn y dyfodol, yn ogystal â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r ysgol wedi bod yn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser, fel sy'n ddisgwyliedig gan bob ysgol dan Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor Sir.

Ni fydd dim newid i ddisgyblion presennol yr ysgol. Bydd y disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Bydd unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ar ôl i'r cynnig gael ei roi ar waith yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen, a bydd dewis o ran cyfrwng iaith yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Direction of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

EIN POBL OUR PEOPLE
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

**Adnoddau addysg**
Wrth wneud y penderfyniad hwn, mae nifer o faterion wedi cael eu hystyried, yn benodol cynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin.

**Cyfeirio penderfyniadau'r awdurdod lleol at Weinidogion Cymru**
Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag Roger W. Bowen o'r adran hon.

Yn gywir,

Gareth Morgans
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**